# HARRY, NUN MORGAN (1800 - 1842), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** Nun Morgan Harry
**Dyddiad geni:** 1800
**Dyddiad marw:** 1842
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd 9 Mehefin 1800 ym mhlwyf Llanbedr Efelffre, Sir Benfro. Collodd ei dad yn ifanc, a chyda'i daid y magwyd ef a'i dri brawd; cawsant addysg dda. Yn eglwys Henllan y derbyniwyd ef yn aelod yn 17 oed, ac yno y dechreuodd bregethu. Drwy gymorth yr arglwyddes Barham, a gymerai ddiddordeb ynddo, aeth i goleg Newport Pagnell, swydd Buckingham, yn 1822. Urddwyd ef yn weinidog eglwys Annibynnol Banbury, 25 Ebrill 1827; symudodd oddi yno 15 Awst 1832 i ofalu am eglwys New Broad Street, Llundain, lle y bu hyd ei farwolaeth 22 Hydref 1842; claddwyd ef ym mynwent Abney Park, Llundain. Yr oedd ef a Caleb Morris yn gyfeillion mynwesol.

Yn 1832 cyhoeddodd gyfrol o 12 darlith ar berson Crist dan y teitl *What think ye of Christ?* Ei bennaf ddiddordeb oedd y mudiad heddwch; yn 1837 daeth yn gyd-ysgrifennydd i'r Gymdeithas Heddwch a bu'n golygu *The Herald of Peace*. Gweithiodd hefyd lawer dros y Morafiaid.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen**, (1890 - 1973)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*, xxv, 51

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), i, 489-92

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 475

Caleb Morris, *The servant of the age a discourse occasioned by the death of the Rev. N. M. Harry, minister of New Broad Street Meeting House, and one of the secretaries of the Peace Society* (1843)

D. Tyssil Evans, *Cofiant a detholiad o bregethau y Parch Caleb Morris, Fetter Lane, Llundain / The life and ministry of the Rev. Caleb Morris who was the minister of the Tabernacle, Narberth; and of Fetter Lane Chapel, London* (Caerdydd 1900, 1902), 220


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18576797


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu